Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

**HYSBYSIAD CYDYMFFURFIO – ADRAN 44 MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011**

**COMPLIANCE NOTICE – SECTION 44 WELSH LANGUAGE (WALES) MEASURE 2011**

**Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth | Nursing and Midwifery Council**

**Dyddiad dyroddi | Issue date – 06/06/2023**

| Rhif y safon:<br><br>Standard number: | Safon | Standard | Diwrnod gosod:<br><br>Imposition day: |
|---|---|---|---|
| **Dosbarth: Class:** | **Safonau Cyflenwi Gwasanaethau** | **Service Delivery Standards** | |
| 1 | Os byddwch yn cael gohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson yng Nghymru, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg. | If you receive correspondence from a person in Wales in Welsh you must reply in Welsh (if an answer is required), unless the person has indicated that there is no need to reply in Welsh. | 06/12/2023 |
| 2 | Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at sawl unigolyn, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth at yr unigolion ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni. | When you send the same correspondence to several individuals, you must send a Welsh language version of the correspondence to the individuals at the same time as you send any English language version. | 06/12/2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3 | Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd). | If you produce a Welsh language version and a corresponding English language version of correspondence, you must not treat the Welsh language version less favourably than the English language version (for example, if the English version is signed, or if contact details are provided on the English version, then the Welsh version must be treated in the same way). | 06/12/2023 |
| 4 | Rhaid ichi ddatgan—<br>(a) mewn gohebiaeth, a<br>(b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau sy'n gwahodd personau yng Nghymru i ymateb ichi neu i ohebu â chi,<br>eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. | You must state—<br>(a) in correspondence, and<br>(b) in publications and notices that invite persons in Wales to respond to you or to correspond with you,<br>that you welcome receiving correspondence in Welsh, that you will respond to correspondence in Welsh, and that corresponding in Welsh will not lead to delay. | 06/12/2023 |
| 5 | Pan fydd unigolyn yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, a bod yr unigolyn hwnnw yn gofyn ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg os oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael (drwy drosglwyddo'r alwad os oes angen)—<br>(a) hyd nes na all yr aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ddarparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a | When an individual contacts you on your main telephone number (or numbers), or on any helpline numbers or call centre numbers, and that individual requests that you deal with the call in Welsh, you must deal with the call in Welsh if a Welsh speaking member of staff is available (by transferring the call if necessary), until such point as—<br>(a) the Welsh speaking member of staff cannot provide a service on a specific subject matter; and<br>(b) no Welsh speaking member of staff is available to provide a service on that specific subject matter. | 06/12/2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw. | | |
| 6 | Rhaid i unrhyw systemau ffôn wedi eu hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg. | Any automated telephone systems that you have must provide the complete automated service in Welsh. | 06/12/2023 |
| 7 | Pan fyddwch yn hysbysebu rhif gwasanaeth ffôn wedi ei awtomeiddio, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | When you advertise an automated telephone service number you must not treat the Welsh language less favourably than the English language. | 06/12/2023 |
| 8 | Os byddwch yn gwahodd un unigolyn ("A") yn unig i gyfarfod yng Nghymru (a dim personau eraill)—<br><br>(a) rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu A y byddwch yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw, a<br>(b) os yw A wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod. | If you invite one individual only ("A") to a meeting in Wales (and no other persons)—<br><br>(a) you must ask A whether A wishes to use the Welsh language at the meeting, and inform A that you will conduct the meeting in Welsh or if necessary, provide a translation service from Welsh to English for that purpose, and<br>(b) if A has informed you that A wishes to use the Welsh language at the meeting, you must conduct the meeting in Welsh or, if necessary, arrange for a simultaneous or consecutive translation service from Welsh to English to be available at the meeting. | 06/12/2023 |
| 9 | Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod yng Nghymru, rhaid ichi ofyn i bob unigolyn a wahoddir a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. | If you invite more than one person to a meeting in Wales, you must ask each individual invited whether they wish to use the Welsh language at the meeting. | 06/12/2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9A | Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod yng Nghymru, a bod o leiaf 10% o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg, neu os oes angen, drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod. | If you have invited more than one person to a meeting in Wales, and at least 10% of the individuals invited have informed you that they wish to use the Welsh language at the meeting, you must conduct the meeting in Welsh, or if necessary, arrange for a simultaneous translation service from Welsh to English to be available at the meeting. | 06/12/2023 |
| 10 | Os byddwch yn trefnu cyfarfod a gynhelir yng Nghymru sydd ar agor i'r cyhoedd ac y caniateir cyfranogiad cyhoeddus gan unigolyn ynddo, rhaid ichi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, ac ar unrhyw wahoddiad iddo, fod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. | If you arrange a meeting held in Wales that is open to the public and at which public participation by an individual is allowed you must state on any material advertising it, and on any invitation to it, that anyone attending is welcome to use the Welsh language at the meeting. | 06/12/2023 |
| 11 | Pan fyddwch yn anfon gwahoddiadau i gyfarfod a gynhelir yng Nghymru yr ydych yn ei drefnu sydd ar agor i'r cyhoedd ac y caniateir cyfranogiad cyhoeddus gan unigolyn ynddo, rhaid ichi eu hanfon yn Gymraeg. | When you send invitations to a meeting held in Wales that you arrange which is open to the public and at which public participation by an individual is allowed, you must send the invitations in Welsh. | 06/12/2023 |
| 12 | Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod yng Nghymru yr ydych yn ei drefnu sydd ar agor i'r cyhoedd ac y caniateir cyfranogiad cyhoeddus gan unigolyn ynddo, rhaid ichi—<br>(a) gofyn i bob person a wahoddir i siarad a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r personau hynny) wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, | If you invite persons to speak at a meeting in Wales that you arrange which is open to the public and at which public participation by an individual is allowed you must—<br>(a) ask each person invited to speak whether they wish to use the Welsh language, and<br>(b) if that person (or at least one of those persons) has informed you that they wish to use the Welsh language at the meeting, provide a simultaneous or consecutive translation service from Welsh to | 06/12/2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu). | English for that purpose (unless you conduct the meeting in Welsh without a translation service). | |
| 13 | Os byddwch yn trefnu cyfarfod a gynhelir yng Nghymru sydd ar agor i'r cyhoedd ac y caniateir cyfranogiad cyhoeddus gan unigolyn ynddo, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg—<br>(a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.<br><br>**Rhaid i chi gydymffurfio â safon 13 ymhob amgylchiad, ac eithrio:**<br>○ **pan fo gwahoddiad neu hysbyseb i'r cyfarfod wedi gofyn i'r rheiny fydd yn bresennol eich hysbysu a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, a bod dim un ohonynt wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.** | If you arrange a meeting held in Wales that is open to the public and at which public participation by an individual is allowed, you must ensure that a simultaneous translation service from Welsh to English is available at the meeting, and you must orally inform those present in Welsh—<br>(a) that they are welcome to use the Welsh language, and<br>(b) that a simultaneous translation service is available.<br><br>**You must comply with standard 13 in every circumstance, except:**<br>○ **where an invitation or material advertising a meeting has asked those attending to inform you whether they wish to use the Welsh language, and nobody has informed you that they wish to use the Welsh language at the meeting.** | 06/12/2023 |
| 14 | Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus yng Nghymru, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad). | If you organise a public event in Wales you must ensure that, in promoting the event, the Welsh language is treated no less favourably than the English language (for example, in the way the event is advertised or publicised). | 06/12/2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 15 | Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus yng Nghymru, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion ydych yn eu llunio a'u harddangos yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo). | If you organise a public event in Wales you must ensure that the Welsh language is treated no less favourably than the English language at the event (for example, in relation to services offered to persons attending the event, in relation to signs you produce and display at the event and in relation to audio announcements made at the event). | 06/12/2023 |
| 16 | Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio pan fo'r gynulleidfa a ragwelir yn unigolyn gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. | Any publicity or advertising material that you produce where the anticipated audience is an individual must be produced in Welsh and if you produce the material in Welsh and English, you must not treat the Welsh language version less favourably than you treat the English language version. | 06/12/2023 |
| 17 | Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei lunio ac yn ei arddangos yn gyhoeddus yng Nghymru gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. | Any material that you produce and display in public in Wales must be displayed in Welsh, and you must not treat any Welsh language version of the material less favourably than the English language version. | 06/12/2023 |
| 19 | Os byddwch yn llunio ffurflen sydd i'w chwblhau gan unigolyn, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg. | If you produce a form that is to be completed by an individual, you must produce it in Welsh | 06/12/2023 |
| 20 | Os byddwch yn llunio ffurflen gais yr ydych yn ei rhoi ar gael i un sydd wedi cofrestru gael ei gynnwys ar y gofrestr a gynhelir gennych, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg. | If you produce an application form that you make available for a registrant to be included on the register maintained by you, you must produce it in Welsh. | 31/12/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Rhaid i chi gydymffurfio â safon 20 ym mhob amgylchiad erbyn 31 Rhagfyr 2025, ag eithrio:**<br>• **llwybrau cofrestru sydd ar gyfer cofrestrai sydd wedi hyfforddi y tu allan i'r DU, a(neu)**<br>• **llwybrau cofrestru yr Undeb Ewropeaidd neu'r Undeb Economaidd Ewrasiaidd**<br>**Nid yw'r safon hon yn gymwys i ddarparu'r ffurflen ar lein yn Gymraeg os yw'r ffurflen yn cael ei darparu yn Gymraeg mewn fformat y gellir ei lawrlwytho.** | **You must comply with standard 20 in all circumstances by 31 December 2025, except:**<br>• **Registration routes for those who have qualified outside the UK and(or)**<br>• **European Union and the Eurasian Economic Union registration routes.**<br>**This standard does not apply to the provision of the form online in Welsh if the form is provided in Welsh in a downloadable format.** | |
| 21 | Os byddwch yn llunio dogfen (ond nid ffurflen) ar gyfer un neu ragor o unigolion, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg—<br>(a) os yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu<br>(b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir yng Nghymru, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg. | If you produce a document (but not a form) for one or more individuals, you must produce it in Welsh—<br>(a) if the subject matter of the document suggests that it should be produced in Welsh, or<br>(b) if the anticipated audience in Wales, and their expectations, suggests that the document should be produced in Welsh. | 06/12/2023 |
| 22 | Os byddwch yn llunio dogfen neu ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi—<br>(a) peidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (pa un a ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio);<br>(b) peidio â gwahaniaethu rhwng y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg mewn perthynas ag unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ddogfen | If you produce a document or a form in Welsh and in English you must—<br>(a) not treat any Welsh language version less favourably than you treat the English language version (whether separate versions or not);<br>(b) not differentiate between the Welsh and English version in relation to any requirements that are relevant to the document or form (for example in | 06/12/2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | neu'r ffurflen (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen, neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ddogfen neu'r ffurflen); ac<br>(c) sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir fod y ddogfen neu'r ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg. | relation to any deadline for submitting the form, or in relation to the time allowed to respond to the content of the document or form); and<br>(c) ensure that the English language version clearly states that the document or form is also available in Welsh. | |
| 23 | Rhaid ichi ddatgan mewn cyhoeddiadau, canllawiau a hysbysiadau yr ydych yn eu llunio sy'n hysbysu rhai sydd wedi cofrestru ("C") am ymchwiliadau a all arwain at achosion cyfreithiol gennych y caiff yr C y cynhelir yr ymchwiliad yn ei gylch gyflwyno ffurflenni a dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig ichi yn Gymraeg mewn perthynas â'r ymchwiliad hwnnw. | You must state in publications, guidance and notices that you produce informing registrants ("R") about investigations that may lead to legal proceedings by you, that the R about whom the investigation is being conducted may submit forms and documents and make written representations to you in Welsh in relation to that investigation. | 06/12/2023 |
| 24 | Os byddwch yn llunio ffurflen mewn perthynas ag ymchwiliad a allai arwain at achos cyfreithiol gennych sydd i'w chwblhau gan un sydd wedi cofrestru y cynhelir yr ymchwiliad yn ei gylch, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg. | If you produce a form in relation to an investigation that may lead to legal proceedings by you that is to be completed by a registrant about whom the investigation is being conducted, you must produce it in Welsh. | 06/12/2023 |
| 25 | Pan foch yn cysylltu ag un sydd wedi cofrestru ("C") am y tro cyntaf mewn perthynas ag ymchwiliad a all arwain at achos cyfreithiol gennych yn erbyn yr C hwnnw, rhaid ichi ofyn i'r C nodi a yw C yn dymuno siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd a galwadau ffôn sydd wedi eu hamserlennu sy'n ymwneud â'r ymchwiliad. | Where you contact a registrant ("R") for the first time in relation to an investigation that may lead to legal proceedings by you against that R, you must ask the R to indicate whether R wishes to speak Welsh in meetings and scheduled telephone calls relating to the investigation. | 06/12/2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 25A | Os yw un sydd wedi cofrestru ("C") wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd a galwadau ffôn sydd wedi eu hamserlennu sy'n ymwneud â'r ymchwiliad, rhaid ichi gynnal y cyfarfod neu'r alwad sydd wedi ei hamserlennu yn Gymraeg neu, os oes angen, drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod. | If a registrant ("R") has informed you that R wishes to use the Welsh language in meetings and scheduled telephone calls relating to the investigation, you must conduct the meeting or the scheduled call in Welsh or, if necessary, arrange for a simultaneous or consecutive translation service from Welsh to English to be available at the meeting. | 06/12/2023 |
| 26 | Pan foch yn cysylltu ag un sydd wedi cofrestru ("C") am y tro cyntaf mewn perthynas ag ymchwiliad a all arwain at achos cyfreithiol gennych yn erbyn yr C hwnnw, rhaid ichi ofyn i C nodi a yw'n dymuno cael copïau yn Gymraeg o ffurflenni a dogfennau yr ydych yn eu llunio ac sydd i fod ar gael i C. | Where you contact a registrant ("R") for the first time in relation to an investigation that may lead to legal proceedings by you against that R, you must ask R to indicate whether R wishes to receive copies in Welsh of forms and documents that you produce in relation to the investigation and which are to be available to R. | 06/12/2023 |
| 26A | Pan fo un sydd wedi cofrestru ("C") wedi nodi ei fod yn dymuno cael copïau yn Gymraeg o ffurflenni a dogfennau yr ydych yn eu llunio mewn perthynas â'r ymchwiliad ac sydd i'w rhoi ar gael i'r C hwnnw—<br><br>(a) rhaid ichi ddarparu'r ffurflenni hynny a'r dogfennau hynny yn Gymraeg mewn perthynas ag ymchwiliad a all arwain at achos cyfreithiol yn erbyn yr C hwnnw, a<br>(b) rhaid ichi beidio â thrin eu llunio yn llai ffafriol na ffurflenni a dogfennau yr ydych yn eu llunio yn Saesneg. | Where a registrant ("R") has indicated that they wish to receive copies in Welsh of forms and documents that you produce in relation to the investigation and which are to be made available to that R, you—<br><br>(a) must provide such forms and documents in Welsh in relation to an investigation that may lead to legal proceedings against that R, and<br>(b) must not treat the production of them less favourably than forms and documents you produce in English. | 06/12/2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 27 | Pan foch yn cael ffurflenni neu ddogfennau yn Gymraeg oddi wrth un sydd wedi cofrestru (“C”) mewn perthynas ag ymchwiliad a all arwain at achos cyfreithiol ynghylch yr C hwnnw, rhaid ichi beidio â thrin y ffurflenni hynny neu’r dogfennau hynny yn llai ffafriol na’r rhai yr ydych yn eu cael yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg materion eraill, mewn perthynas â’r amserlen ar gyfer cael y ffurflenni hynny a’r dogfennau hynny a hysbysu C am benderfyniadau). | Where you receive forms or documents in Welsh from a registrant (“R”) in relation to an investigation that may lead to legal proceedings about that R, you must not treat those forms or documents less favourably than ones that you receive in English (including, amongst other matters, in relation to the timescale for receiving such forms and documents and informing R of decisions). | 06/12/2023 |
| 28 | Rhaid ichi ddatgan mewn cyhoeddiadau, canllawiau a hysbysiadau yr ydych yn eu llunio sy’n hysbysu rhai sydd wedi cofrestru am achosion cyfreithiol y caiff yr un sydd wedi cofrestru sy’n destun yr achos cyfreithiol gyflwyno ffurflenni a dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig ichi yn Gymraeg mewn perthynas â’r achos hwnnw. | You must state in publications, guidance and notices that you produce informing registrants about legal proceedings that the registrant who is the subject of the legal proceedings may submit forms and documents and make written representations to you in Welsh in relation to those proceedings. | 06/12/2023 |
| 29 | Os byddwch yn llunio ffurflen mewn perthynas ag achos cyfreithiol sydd i’w chwblhau gan un sydd wedi cofrestru sy’n destun achos cyfreithiol, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg. | If you produce a form in relation to legal proceedings that is to be completed by a registrant who is the subject of legal proceedings, you must produce it in Welsh. | 06/12/2023 |
| 30 | Pan fo un sydd wedi cofrestru (“C”) sy’n destun achos cyfreithiol yn cysylltu â chi am y tro cyntaf i ymateb i’r achos cyfreithiol hwnnw, rhaid ichi ofyn i’r C nodi a yw’r C yn dymuno siarad yn Gymraeg yn yr achos cyfreithiol hwnnw. | Where a registrant (“R”) who is the subject of legal proceedings contacts you for the first time to respond to those legal proceedings, you must ask the R to indicate whether the R wishes to speak in Welsh in those legal proceedings. | 06/12/2023 |
| 30A | Os yw un sydd wedi cofrestru (“C”) wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio’r Gymraeg | If a registrant (“R”) has informed you that R wishes to use the Welsh language in any legal proceedings | 06/12/2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mewn unrhyw achos cyfreithiol a gynhelir yn Lloegr, rhaid ichi gynnal yr achos cyfreithiol yn Gymraeg neu, os oes angen, drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod. | held in England, you must conduct the legal proceedings in Welsh or, if necessary, arrange for a simultaneous or consecutive translation service from Welsh to English to be available at the meeting. | |
| 31 | Pan fo un sydd wedi cofrestru sy'n destun yr achos cyfreithiol ("C") yn cysylltu â chi am y tro cyntaf i ymateb i achos cyfreithiol, rhaid ichi ofyn i C nodi a yw'n dymuno cael copïau yn Gymraeg o ffurflenni a dogfennau yr ydych yn eu llunio mewn perthynas â'r achos cyfreithiol hwnnw ac sydd i fod ar gael i C. | Where a registrant ("R") who is the subject of legal proceedings contacts you for the first time to respond to those legal proceedings, you must ask R to indicate whether R wishes to receive copies in Welsh of forms and documents that you produce in relation to those legal proceedings and which are to be available to R. | 06/12/2023 |
| 31A | Pa fo un sydd wedi cofrestru ("C") wedi nodi ei fod yn dymuno cael copïau yn Gymraeg o ffurflenni a dogfennau yr ydych yn eu llunio mewn perthynas â'r achos cyfreithiol hwnnw ac sydd i'w rhoi ar gael i'r C hwnnw—<br>(a) rhaid ichi ddarparu'r ffurflenni hynny a'r dogfennau hynny yn Gymraeg mewn perthynas â'r achos cyfreithiol hwnnw, a<br>(b) rhaid ichi beidio â thrin eu llunio yn llai ffafriol na ffurflenni a dogfennau yr ydych yn eu llunio yn Saesneg. | Where a registrant ("R") has indicated that they wish to receive copies in Welsh of forms and documents that you produce in relation to those legal proceedings and which are to be made available to that R, you—<br>(a) must provide such forms and documents in Welsh in relation to those legal proceedings, and<br>(b) must not treat the production of them less favourably than forms and documents you produce in English. | 06/12/2023 |
| 32 | Pan foch yn cael ffurflenni neu ddogfennau yn Gymraeg oddi wrth un sydd wedi cofrestru sy'n destun achos cyfreithiol ("C") sy'n ymateb i achos cyfreithiol, rhaid ichi beidio â thrin y ffurflenni hynny neu'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na'r | Where you receive forms or documents in Welsh from a registrant who is the subject of legal proceedings ("R") responding to legal proceedings, you must not treat those forms or documents less favourably than ones that you receive in English | 06/12/2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | rhai yr ydych yn eu cael yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg materion eraill, mewn perthynas â'r amserlen ar gyfer cael y ffurflenni hynny a'r dogfennau hynny a hysbysu C am benderfyniadau). | (including amongst other matters, in relation to the timescale for receiving such forms and documents and informing R of decisions). | |
| 33 | Rhaid ichi ddynodi a chynnal tudalen (neu dudalennau) ar eich gwefan sy'n darparu gwybodaeth (yn Gymraeg)—<br><br>(a) amdanoch chi,<br>(b) am y gwasanaethau yr ydych yn eu darparu yn gyffredinol,<br>(c) am y gwasanaethau yr ydych yn eu darparu yng Nghymru,<br>(ch) am sut i wneud cwyn ynghylch person sy'n cael ei reoleiddio gennych,<br>(d) am y gwasanaethau Cymraeg yr ydych yn eu darparu a sut y gellir cael gafael ar bob un o'r gwasanaethau Cymraeg hynny. | You must designate and maintain a page (or pages) on your website which provides information (in Welsh) on—<br><br>(a) you,<br>(b) the services you provide generally,<br>(c) the services you provide in Wales,<br>(ch) how to make a complaint about a person regulated by you,<br>(d) the Welsh language services you provide and how each of those Welsh language services can be accessed. | 06/12/2023 |
| 34 | Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi ddatgan yn glir ar y dudalen Saesneg fod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a rhaid ichi ddarparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol. | If you have a Welsh language web page that corresponds to an English language web page, you must state clearly on the English language web page that the page is also available in Welsh, and you must provide a direct link to the Welsh page on the corresponding English page. | 06/12/2023 |
| 35 | Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb). | If a person contacts you by social media in Welsh, you must reply in Welsh (if an answer is required). | 06/12/2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 36 | Pan fyddwch yn defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol ac yn postio neges sy’n ymwneud â Chymru yn unig, rhaid ichi gyhoeddi’r neges yn Gymraeg. | When you use social media and post content which relates exclusively to Wales, you must publish the message in Welsh. | 06/12/2023 |
| 37 | Rhaid i unrhyw hysbysiad yr ydych yn ei gyhoeddi neu’n ei arddangos yng Nghymru ac sy’n ymwneud â gwasanaeth a ddarperir yng Nghymru gael ei gyhoeddi neu ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o hysbysiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono. | Any notice that you publish or display in Wales and which relates to a service provided in Wales must be published or displayed in Welsh, and you must not treat any Welsh language version of a notice less favourably than an English language version. | 06/12/2023 |
| 38 | Pan fyddwch yn cyhoeddi neu’n arddangos hysbysiad yng Nghymru sy’n cynnwys testun Cymraeg yn ogystal â thestun Saesneg, rhaid i’r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy’n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. | When you publish or display a notice in Wales that contains Welsh language text as well as English language text, the Welsh language text must be positioned so that it is likely to be read first. | 06/12/2023 |
| 39 | Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu’r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg. | You must promote any Welsh language service that you provide, and advertise that service in Welsh. | 06/12/2023 |
| 40 | Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy’n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen yr ydych yn ei lunio neu’n ei llunio, neu wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy’n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg ddatgan hefyd fod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg. | If you provide a service in Welsh that corresponds to a service you provide in English, any publicity or document that you produce, or website that you publish, which refers to the English service must also state that a corresponding service is available in Welsh. | 06/12/2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 41 | Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | When you form, revise or present your corporate identity, you must not treat the Welsh language less favourably than the English language. | 06/12/2023 |
| **Dosbarth: Class:** | **Safonau llunio polisi** | **Policy Making Standards** | |
| 42 | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n diwygio polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un a yw'r rheini yn bositif neu'n andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar—<br><br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | When you formulate a new policy, or review or revise an existing policy, you must consider what effects, if any (whether positive or adverse), the policy decision would have on—<br><br>(a) opportunities for persons to use the Welsh language, and<br>(b) treating the Welsh language no less favourably than the English language. | 06/12/2023 |
| 43 | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n diwygio polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—<br><br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | When you formulate a new policy, or review or revise an existing policy, you must consider how the policy could be formulated (or how an existing policy could be changed) so that the policy decision would have positive effects, or increased positive effects on—<br><br>(a) opportunities for persons to use the Welsh language, and<br>(b) treating the Welsh language no less favourably than the English language. | 06/12/2023 |
| 44 | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n diwygio polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn | When you formulate a new policy, or review or revise an existing policy, you must consider how the policy could be formulated (or how an existing policy could be changed) so that the policy decision | 06/12/2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi yn cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—<br><br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | would not have adverse effects, or so that it would have decreased adverse effects, on—<br><br>(a) opportunities for persons to use the Welsh language, and<br>(b) treating the Welsh language no less favourably than the English language. | |
| 45 | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen ystyried yr effeithiau (pa un a yw'r rheini yn bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar y canlynol, a cheisio barn ynghylch yr effeithiau hynny—<br><br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | When you publish a consultation document which relates to a policy decision the document must consider, and seek views on, the effects (whether positive or adverse) that the policy decision under consideration would have on—<br><br>(a) opportunities for persons to use the Welsh language, and<br>(b) treating the Welsh language no less favourably than the English language. | 06/12/2023 |
| 46 | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen ystyried sut y gellid llunio neu ddiwygio'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar y canlynol, a cheisio barn ynghylch hynny—<br><br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | When you publish a consultation document which relates to a policy decision the document must consider, and seek views on, how the policy under consideration could be formulated or revised so that it would have positive effects, or increased positive effects, on—<br><br>(a) opportunities for persons to use the Welsh language, and<br>(b) treating the Welsh language no less favourably than the English language. | 06/12/2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 47 | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen ystyried sut y gellid llunio neu ddiwygio'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar y canlynol, a cheisio barn ynghylch hynny—<br><br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | When you publish a consultation document which relates to a policy decision the document must consider, and seek views on, how the policy under consideration could be formulated or revised so that it would not have adverse effects, or so that it would have decreased adverse effects, on—<br><br>(a) opportunities for persons to use the Welsh language, and<br>(b) treating the Welsh language no less favourably than the English language. | 06/12/2023 |
| 48 | Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir iddo eich cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un a yw'r rheini yn bositif neu'n andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar—<br><br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | When you commission or undertake research that is intended to assist you to make a policy decision, you must ensure that the research considers what effects, if any (and whether positive or adverse), the policy decision under consideration would have on—<br><br>(a) opportunities for persons to use the Welsh language, and<br>(b) treating the Welsh language no less favourably than the English language. | 06/12/2023 |
| 49 | Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir iddo eich cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar— | When you commission or undertake research that is intended to assist you to make a policy decision, you must ensure that the research considers how the policy decision under consideration could be made so that it would have positive effects, or so that it would have increased positive effects, on—<br><br>(a) opportunities for persons to use the Welsh | 06/12/2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | language, and<br>(b) treating the Welsh language no less favourably than the English language. | |
| 50 | Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir iddo eich cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | When you commission or undertake research that is intended to assist you to make a policy decision, you must ensure that the research considers how the policy decision under consideration could be made so that it would not have adverse effects, or so that it would have decreased adverse effects, on—<br>(a) opportunities for persons to use the Welsh language, and<br>(b) treating the Welsh language no less favourably than the English language. | 06/12/2023 |
| **Dosbarth: Class:** | **Safonau gweithredu** | **Operational Standards** | |
| 51 | Rhaid ichi asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogeion. | You must assess the Welsh language skills of your employees. | 06/12/2023 |
| 52 | Rhaid ichi ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'ch cyflogeion ddatblygu—<br><br>(a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth o'i hanes a'i rôl yn niwylliant Cymru);<br>(b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg;<br>(c) dealltwriaeth o sut y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. | You must provide training courses so that your employees can develop—<br><br>(a) awareness of the Welsh language (including awareness of its history and its role in Welsh culture);<br>(b) an understanding of the duty to operate in accordance with the Welsh language standards;<br>(c) an understanding of how the Welsh language can be used in the workplace. | 06/12/2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 53 | Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (er enghraifft, drwy broses ymsefydlu), rhaid ichi ddarparu gwybodaeth at ddiben codi eu hymwybyddiaeth o’r Gymraeg. | When you provide information to new employees (for example by means of an induction process), you must provide information for the purpose of raising their awareness of the Welsh language. | 06/12/2023 |
| 54 | Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i’ch cyflogeion i gael gwersi Cymraeg sylfaenol. | You must provide opportunities during working hours for your employees to receive basic Welsh language lessons. | 06/12/2023 |
| 55 | Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i’ch cyflogeion, sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol i gael hyfforddiant pellach, yn rhad ac am ddim, er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith. | You must provide opportunities for employees, who have completed basic Welsh language training to receive further training, free of charge, to develop their language skills. | 06/12/2023 |
| 56 | Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i gyflogeion i gael hyfforddiant, yn rhad ac am ddim, i wella eu sgiliau Cymraeg. | You must provide opportunities for employees, to receive training, free of charge, to improve their Welsh language skills. | 06/12/2023 |
| 57 | Pan fyddwch yn asesu’r gofynion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid ichi asesu’r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a’i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o’r canlynol yn gymwys—<br><br>(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;<br>(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i’r swydd;<br>(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu<br>(ch) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol. | When you assess the requirements for a new or vacant post, you must assess the need for Welsh language skills, and categorise it as a post where one or more of the following apply—<br><br>(a) Welsh language skills are essential;<br>(b) Welsh language skills need to be learnt when appointed to the post;<br>(c) Welsh language skills are desirable; or<br>(ch) Welsh language skills are not necessary. | 06/12/2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 57A | Pan fyddwch yn hysbysebu swydd yr ydych wedi ei chategoreiddio fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid ichi—<br><br>(a) pennu hynny yn yr hysbysiad, a<br>(b) hysbysebu'r swydd yn Gymraeg. | When you advertise a post which you have categorised as one where Welsh language skills are essential, desirable or need to be learnt you must—<br><br>(a) specify that in the advertisement, and<br>(b) advertise the post in Welsh. | 06/12/2023 |
| 58 | Pan fyddwch yn hysbysebu swydd—<br><br>(a) sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru,<br>(b) y mae ei dyletswyddau yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â Chymru, neu<br>(c) yr ydych wedi ei chategoreiddio fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol,<br><br>rhaid ichi ddatgan y caniateir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg ac na fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg. | When you advertise a post—<br><br>(a) which is based wholly or mainly in Wales,<br>(b) the duties of which relate wholly or mainly to Wales, or<br>(c) which you have categorised as one where Welsh language skills are essential or desirable,<br><br>you must state that applications may be submitted in Welsh and that an application submitted in Welsh will not be treated less favourably than an application submitted in English. | 06/12/2023 |
| 58A | Os byddwch yn cyhoeddi ffurflen gais am swydd—<br><br>(a) sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru,<br>(b) y mae ei dyletswyddau yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â Chymru, neu | If you publish an application form for a post—<br><br>(a) which is based wholly or mainly in Wales,<br>(b) the duties of which relate wholly or mainly to Wales, or<br>(c) which you have categorised as one where Welsh language skills are essential or desirable, | 06/12/2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (c) yr ydych wedi ei chategoreiddio fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol,<br><br>rhaid ichi ei chyhoeddi yn Gymraeg a sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. | you must publish it in Welsh and ensure that the Welsh version is treated no less favourably than the English version. | |
| 58B | Rhaid ichi beidio â thrin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg materion eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau yr ydych yn ei osod ar gyfer cael ceisiadau ac mewn perthynas ag unrhyw amserlen ar gyfer hysbysu ymgeiswyr am benderfyniadau). | You must not treat an application for a post made in Welsh less favourably than you treat an application made in English (including, amongst other matters, in relation to the closing date you set for receiving applications and in relation to any timescale for informing applicants of decisions). | 06/12/2023 |
| 59 | Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflen gais am swydd—<br><br>(a) sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru,<br>(b) y mae ei dyletswyddau yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â Chymru, neu<br>(c) yr ydych wedi ei chategoreiddio fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol,<br><br>yn rhoi lle i'r ymgeisydd nodi ei fod yn dymuno i gyfweliad neu ddull arall o asesiad gael ei gynnal yn Gymraeg ac os yw ymgeisydd yn dymuno hynny, rhaid ichi gynnal unrhyw gyfweliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg, neu, os oes angen, ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd | You must ensure that your application form for a post—<br><br>(a) which is based wholly or mainly in Wales,<br>(b) the duties of which relate wholly or mainly to Wales, or<br>(c) which you have categorised as one where Welsh language skills are essential or desirable,<br><br>provides a space for the applicant to indicate that they wish an interview or other assessment method to be held in Welsh and if an applicant so wishes, you must conduct any interview or other method of assessment in Welsh, or, if necessary, provide a simultaneous or consecutive translation service from Welsh to English for that purpose. | 06/12/2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw. | | |
| **Dosbarth: Class:** | **Safonau Cadw Cofnodion** | **Record Keeping Standards** | |
| 60 | Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau. | You must keep a record, in relation to each financial year, of the number of complaints you receive relating to your compliance with standards. | 06/12/2023 |
| 61 | Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | You must keep a copy of any written complaint that you receive which relates to your compliance with the standards with which you are under a duty to comply. | 06/12/2023 |
| 62 | Rhaid ichi gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau Cymraeg eich cyflogeion a wnaed yn unol â safon 51) o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny'n wybyddus ichi, rhaid ichi gadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny. | You must keep a record (following assessments of your employees' Welsh language skills made in accordance with standard 51), of the number of employees who have Welsh language skills at the end of each financial year and, where you have that information, you must keep a record of the skill level of those employees. | 06/12/2023 |
| 63 | Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â safon 57) fel swyddi sy'n gofyn—<br>(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;<br>(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd;<br>(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu<br>(ch) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol. | You must keep a record, in relation to each financial year, of the number of new and vacant posts which were categorised (in accordance with standard 57) as posts where—<br>(a) Welsh language skills are essential;<br>(b) Welsh language skills need to be learnt when appointed to the post;<br>(c) Welsh language skills are desirable; or<br>(ch) Welsh language skills are not necessary. | 06/12/2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dosbarth: Class:** | **Safonau Atodol** | **Supplementary Matters** | |
| 64 | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael ar eich gwefan. | You must ensure that a document which records the standards with which you are under a duty to comply, and the extent to which you are under a duty to comply with those standards, is available on your website. | 06/12/2023 |
| 65 | Rhaid ichi—<br><br>(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a<br>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan. | You must—<br><br>(a) ensure that you have a complaints procedure that deals with how you intend to deal with complaints relating to your compliance with the standards with which you are under a duty to comply, and<br>(b) publish a document that records that procedure on your website. | 06/12/2023 |
| 66 | (1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.<br><br>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt)—<br>(a) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn o dan sylw a oedd yn ymwneud â'ch | (1)You must produce a report (an "annual report"), in Welsh, in relation to each financial year, which deals with the way in which you have complied with the standards with which you were under a duty to comply during that year.<br><br>(2) The annual report must include the following information (where relevant, to the extent you are under a duty to comply with the standards referred to)—<br>(a) the number of complaints that you received during the year in question which related to | 06/12/2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cydymffurfedd â'r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 60);<br>(b) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 62);<br>(c) nifer (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 63) y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn—<br>(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;<br>(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd;<br>(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu<br>(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.<br><br>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.<br><br>(4) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael ar eich gwefan. | compliance with the standards with which you were under a duty to comply (on the basis of the records you kept in accordance with standard 60);<br>(b) the number of employees who have Welsh language skills at the end of the year in question (on the basis of the records you kept in accordance with standard 62);<br>(c) the number (on the basis of the records you kept in accordance with standard 63) of new and vacant posts that you advertised during the year which were categorised as posts where—<br>(i) Welsh language skills were essential;<br>(ii) Welsh language skills needed to be learnt when appointed to the post;<br>(iii) Welsh language skills were desirable; or<br>(iv) Welsh language skills were not necessary.<br><br>(3) You must publish the annual report no later than 6 months following the end of the financial year to which the report relates.<br><br>(4) You must ensure that a current copy of your annual report is available on your website. | |
| 67 | Rhaid ichi ddarparu i Gomisiynydd y Gymraeg (os bydd yn gofyn amdani) unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, y safonau llunio polisi neu'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | You must provide the Welsh Language Commissioner (if requested by the Commissioner) with any information which relates to your compliance with the service delivery standards, the policy making | 06/12/2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | standards or the operational standards with which you are under a duty to comply. | |